

Rhagorol

RHAGOROL

Coleg Penybont
Bridgend College



Coleg Penybont - Cynllun Strategol 2020 - 2025



Cynnwys

Coleg Penybont
Bridgend College



Mae ein Cynllun Strategol wedi'i lunio gan staff a dysgwyr yng Ngholeg Penybont i'n helpu i ffurfio ein nodau a'n gwerthoedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Cyflwyniad 1

Ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd 3

Ein Pileri 11

Cyflwynn

Neges gan ein Pennaeth

“ Pam ydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud? Mae'n gwestiwn y dylai pob sefydliad ei ofyn i'w hunain. Yng Ngholeg Penybont, mae'n rhywbeth rydyn ni wedi'i ystyried ers cryn amser. Ac i ni, mae'r ateb yn eithaf syml; rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel bod ein dysgwyr, ein staff a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn gallu bod yn bopeth y gallent fod.

Mae'r ymdeimlad hwn o bwrpas wedi ysbrydoli ein cenhadaeth dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n rhywbeth a fydd yn parhau i'n gyrru am y pum mlynedd nesaf.

Rydyn ni'n byw mewn amseroedd rhyfeddol, sy'n golygu bod angen pobl a sefydliadau rhagorol arnom i rymuso ein cymunedau wrth i ni lywio ein ffordd trwy gyfnodau o ansicrwydd. Mae'r heriau'n niferus, o newid yn yr hinsawdd ac amddifadedd cymdeithasol i bryderon Brexit yn y wlad hon sydd wedi'i rhannu'n wleidyddol. Ond mae cyfle hefyd - un yr ydym ni yng Ngholeg Penybont yn ei gofleidio - wrth i ni barhau i adeiladu sector AB cryf sy'n seiliedig ar werthoedd sy'n helpu cymunedau nid yn unig i oroesi, ond i ffynnu.

Pan fyddwn yn adlewyrchu ar ein Cynllun Strategol 2014-2019, mae rhestr hir o gyflawniadau rhagorol i'w dathlu - gallwch ddarllen mwy amdanynt i'r dde o'r dudalen hon. Mae wedi bod yn siwrnai anodd ar brydiau ond fe'i gwnaed yn bosibl gan

angerdd, gwydnwch ac ymrwymiad ein staff, llywodraethwyr a'n dysgwyr ymroddedig.

Er bod gennym lawer i ymfalchïo ynddo, mae mwy o waith i'w wneud. Yn yr amseroedd hyn sy'n parhau i newid, mae'n rhaid i ni ddal ati i symud ymlaen i fod hyd yn oed yn fwy arloesol fel bod ein staff a'n dysgwyr yn parhau i gyflawni pethau gwych. Fel y cyfryw, mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Cynllun Strategol Coleg Penybont ar gyfer 2020-2025. Trwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod pawb yng Ngholeg Penybont yn cael y cyfle i fod y gorau y gallant fod.”




Prif Weithredwr a Phennaeth
Coleg Penybont

niad



Mind's
Workplace
Wellbeing
Index 2019



**Times Educational
Supplement UK
College of the Year**

**“Estyn
Double
Excellent”**
Inspection
Report

Cyflawniadau Eithriadol Allweddol (2014-2019)

- Coleg y Flwyddyn y DU 'Times Educational Supplement' (2019)
- Dyfarniad “dwbl ardderchog” Estyn (2016)
- Gwobrau Disglair Cymdeithas y Colegau (AOC):
 - Arweinyddiaeth a Llywodraethu (2017)
 - Sgiliau Trosglwyddadwy (2016)
 - Addysgu Ymarferol a Dysgu Ymarferol (2015)
- 'Times 100' o Gwmnïau Gorau ar eu cyfer - safle 28 (2017)
- Cyfraddau Cwblhau Llwyddiannus o 90% ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith (2019) - ochr yn ochr â thwf o 800% yng ngwerth y cytundeb dros gyfnod o 6 blynedd
- Cyfraddau cwblhau llwyddiannus o 90% (Pob Cymhwyster) (2016-2017)
- Partneriaeth lwyddiannus gydag Ysgol Gyfun Pencoed i greu 6ed Dosbarth Penybont - gwelliant o 26% yng nghyfraddau pasio lefel A * - C yn Safonau 'A'
- Mae 98% o staff yn hapus i weithio i Goleg Penybont (Arolwg Staff 2018)
- Mynegai Lles yn y Gweithle 'Mind' 2019, Gwobr Arian
- Cynyddodd hylifedd arian parod diwrnodau o 8 diwrnod (2013) i 30+ diwrnod
- Cyflogwr Chwarae Teg (Gwobr Arian)

Bydddwch yn
bopeth y
gallwch
fod.

Ein Gwerthoedd

Atgyfnerthir ein gwerthoedd
ledled cymuned y coleg. Mae
pob aelod o staff, dysgwr
a phartner yn byw ac yn
anadlu ein gwerthoedd
craidd sy'n rhan o bob
agwedd o fywyd y coleg.



Byddwch yn

Byddwch yn

Byddwch yn

Byddwch yn

Byddwch yn

Byddwch yn

Bobl-ganolog

Ysbrydoledig

Angerddol

Arloesol

Chwaraewr tîm

Gynhwysol



Byddwch yn Bobl- Ganolog

Credwn yn wirioneddol fod pob aelod o staff, pob dysgwr a phob rhyngweithiad yn cyftri. Fel y cyfryw, dylem i gyd gymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd. Y safonau rydyn ni'n cerdded heibio yw'r safonau rydyn ni'n eu derbyn - felly os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgysrsiau gonest a sesiynau un i un fel ein bod ni'n gwella ac yn datblygu'n gyson. Cofiwch, rydyn ni'n gwasanaethu'r rhai rydyn ni'n eu harwain, ac o'r herwydd, dylen ni ddangos ymddygiadau cadarnhaol i ddatblygu ymddiriedolaeth bob tro.





Byddwch yn Ysbrydoledig

Ein nod bob amser yw bod yn flaengar a chynllunio ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â delio â'r hyn sy'n digwydd yn yr oes sydd ohoni.



Byddwch yn Angerddol

Mae lle i wella bob amser,
felly dylid croesawu adborth
bob tro. Pan rydyn ni'n
angerddol am yr hyn rydyn
ni'n ei wneud, rydyn ni i gyd
yn dod yn llysgennad brand
yn ein rhinwedd ein hunain.





Byddwch yn Arloesol

Rydym yn arloeswyr, ac o'r herwydd, ein nod yw arwain y sector wrth orfodi newid cadarnhaol. Ac eto mae'n bwysig parhau i fod yn gysylltiedig fel y gallwn ni, fel cymuned, gyflawni mwy fyth.



Byddwch yn Chwaraewr tîm

Rydyn ni bob amser yn sefyll ynghyd ac yn hyrwyddo'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud. Rydyn ni wir yn cefnogi pob person sy'n cerdded trwy ein drysau, ac rydyn ni'n gofyn am yr un gefnogaeth yn gyfnewid.





Byddwch yn Gynhwysol

Gall pawb creu effaith, er gwaethaf pa mor fawr neu fach y credant ei fod. Fel y cyfryw, ein cyfrifoldeb ni yw creu amgylchedd ymddiriedol lle mae pob person yn teimlo ei fod yn gallu cyfrannu syniadau.

I fod yn Ardderchog

Bydd Coleg Penybont yn sefydliad rhagorol, uchel ei berfformiad, sy'n ymroddedig i fantais dysgu. Byddwn yn denu unigolion trwy feithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl, yn gynhwysol ac yn galluogi, sy'n caniatáu i bob unigolyn fod yn rhan o rywbeth arbennig, rhywbeth unigryw, sefydliad moesegol sy'n cyflawni

rhagoriaeth yn gyson ac yn rhagori trwy wneud y pethau syml yn dda iawn ac yn dathlu llwyddiannau pob unigolyn.

Gydag angerdd ac arloesedd, byddwn yn arwain y ffordd wrth ddylanwadu a siapio addysg a hyfforddiant. Byddwn yn edrych y tu hwnt i sefydliad ein hunain ac yn ceisio

cydweithredu â phartneriaid sydd â meddyliau moesegol sy'n rhannu ein huchelgais i arwain trawsnewidiad a fydd yn gwella cyfleoedd bywyd ein dysgwyr, ein pobl a'n cymunedau. Byddwn yn datblygu dinasyddion creadigol, hapus a hollfydol y dyfodol sy'n gofalu am ein byd, ein diwylliant a'n gilydd.

Byddwn yn

Ardderchog.

Effeithlon.

Ysgogol.

Byddwn yn

- Cyflawni'r 10 Uchaf yn rhestr Cwmnïau Sector Ddielw 'Times 100'
- Cyflawni Safon Aur yn adroddiad Mynegai Lles y DU
- Cyflawni canlyniadau Arolwg Dysgwyr yn y chwarterel uchaf ar gyfer pob maes ledled y DU





Byddwch yn Ardderchog

Byddwn yn meithrin amgylchedd sy'n denu ac yn cadw chwaraewyr tîm eithriadol sy'n cael eu gyrru gan werthoedd, gan alluogi dysgwyr a staff i wneud y gorau o'u potensial gan ganolbwyntio ar les pawb. Bydd gennym y dewrder i arwain ac ymrwymo i ddiwylliant blaengar a hapus sy'n dathlu amrywiaeth a pharch at ein gilydd ac

yn meithrin brwdfrydedd. Byddwn hefyd yn edrych tuag allan ac yn ceisio cydweithredu â phartneriaid sydd â gwerthoedd wedi'u halinio â'n rhai ni er mwyn cael yr effaith gadarnhaol ar ein cymunedau i'r eithaf.

Byddwn yn:

- Lleihau allyriadau carbon gan 25%
- Cyflawni trosiant o 2% lleiafswm fel gwarged gweithredol
- Cynnal lleiafswm o 30 diwrnod o "arian parod"
- Cynnal costau staffio heb fod yn fwy na 65% o'r incwm





Byddwch yn Effeithlon

Byddwn yn addasu i ofynion
byd sy'n newid yn barhaus a
chael yr adnoddau i alluogi
pawb i fod yn Bopeth y Gallant
Fod.

Byddwn yn:

- Cyflawni o leiaf 90% o gwblhad llwyddiannus ar gyfer pob llwybr dysgu
- Ymddangos yn y chwarter sy'n perfformio orau ar gyfer mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru ym mhob sector pwnc
- Cyllido a chyflawni cyfleusterau'r 21ain ganrif ar gyfer yr holl ddarpariaeth



A woman with dark hair and glasses, wearing a dark blue shirt, is holding a small white lamb. The lamb has some brownish spots on its back and is looking towards the left. The background is dark and out of focus.

Byddwch yn Ysgogol

Yn gyson, byddwn yn sicrhau canlyniadau ardderchog trwy wneud y pethau syml yn hynod o dda. Trwy ein dyheadau uchel a'n darpariaeth o ansawdd uchel, byddwn yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn gyda llwybr i swydd wych a bywyd gwych. Bydd ein dysgwyr yn barod i fod yn llysgenhadon eithriadol

i'n cymunedau a Chymru ac yn ddinasyddion hollfydol gweithgar. Byddant yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd i'w helpu i ffynnu mewn byd sy'n newid yn barhaus.

